# Ail Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth

## Datblygiadau mewn Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd:

## Dylanwadau ar gyfer Strategaeth, Ymarfer ac Ymchwil

**Mai 8fed - 10fed 2006**
**Neuadd y Ddinas, Caerdydd**

**Siaradwyr yn cynnwys:**

Dr Tony Attwood

Donna Williams (i'w gadarnhau)

Yr Athro Michael Fitzgerald

Yr Athro Simon Baron Cohen

Dr Glenys Jones

Dr Tanya Breen

Y Fonesig Steve Shirley

Yr Athro Ina van Berckelaer-Onnes

Yr Athro Phil Reed

Y Farwnes Jan Royall

Yr Athro David Allen

Yr Athro Pat Howlin

John Moore

Hugh Morgan

Autism Cymru

AWARES.org

Autism Cymru

Bwriad Ail Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth yw dathlu ymarfer da mewn awtistiaeth yng Nghymru. Mae'r thema ar gyfer yr ail gynhadledd hon yn ymwneud â Datblygiadau mewn Anhwylderau Sbectrwm Awtistaidd 'Dylanwadau ar gyfer Strategaeth, Ymarfer ac Ymchwil' a bydd yn dod ag ymchwilwyr, ymarferwyr enwog ac unigolion gydag ASD at ei gilydd i rannu eu mewnwelediad a'u profiadau er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymarfer.

Bydd y gynhadledd yn cynnwys darlithoedd ar theori ac ymarfer gyda chyfle i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ac arddangosfeydd.


Swyddfa'r Gynhadledd
Swyddfa Cynhadledd Awtistiaeth Cymru
64 Heol Casnewydd
Caerdydd
Cymru CF24 0DF
Ebost: jennie@autismcymru.org
Ffôn: +44 (0)29 2046 3263

Cynhaliwr y gynhadledd
Prif Swyddfa Awtistiaeth Cymru
6 Great Darkgate Street
Aberystwyth
Cymru SY23 1DE
Ebost: sue@autismcymru.org
Ffôn: +44 (0) 1970 625256

www.autismcymru.org


# Ail Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth

## Neuadd y Ddinas, Caerdydd

## Dydd Llun Mai 8fed - Dydd Mercher Mai 10fed 2006

Yn dilyn llwyddiant Cynhadledd Ryngwladol Gyntaf Cymru ar Awtistiaeth ym Mai 2004, bydd Awtistiaeth Cymru yn dychwelyd i Neuadd y Ddinas Caerdydd ar gyfer Ail Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth yn 2006.

Unwaith eto bydd y gynhadledd yn dod ag ymchwilwyr byd-enwog, ymarferwyr ac unigolion gydag anhwylderau sbectrwm awtistaidd at ei gilydd i rannu eu mewnelediad a'u profiadau er mwyn gwella dealltwriaeth ac ymarfer.

Bydd Ail Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar Awtistiaeth yn dechrau mewn steil gyda derbyniad yn Neuadd Farmor ysblennydd Neuadd y Ddinas Caerdydd. Bydd diodydd a lluniaeth ysgafn ar gael wrth gyrraedd, gyda cherddoriaeth traddodiadol Gymreig yn y cefndir. Dilynir hyn gan yr agoriad swyddogol, geiriau o groeso a dwy ddarlith fin-nos gan Donna Williams (i'w gadarnhau) a'r Fonesig Steve Shirley.

Yn y ddeuddydd fydd yn dilyn ceir rhaglen gynhadledd brysur, gyda nifer o siaradwyr mawr eu parch ac eithriadol yn cynnwys Yr Athro David Allen (Cymru); Yr Athro Michael Fitzgerald (Iwerddon); Yr Athro Simon Baron Cohen (Lloegr); Dr Tony Attwood (Awstralia); Yr Athro Patricia Howlin (Lloegr);Yr Athro Phil Reed (Cymru); Dr Glenys Jones (Lloegr); Donna Williams (Awstralia); Yr Athro Ina van Bercklaer-Onnes (Yr Iseldiroedd); Tanya Breen (Seland Newydd); a'r Fonesig Stephanie Shirley (Lloegr) fydd yn trafod materion cyfredol yn codi o bersbectif presennol ymchwil, theori ac ymarfer.

Bydd gan gyfranogwyr gyfle i gymryd rhan mewn cyfres o weithdai 'Ymarfer Da mewn Awtistiaeth' a byddant yn gallu edrych yn hamddenol ar y nifer o stondinau arddangos fydd yn y neuadd isaf.

Mae'r ffî cofrestru yn cynnwys mynediad i'r darlithoedd, gweithdai a'r arddangosfeydd. Mae hefyd yn cynnwys mynediad i ddigwyddiad cymdeithasol a drefnwyd yn arbennig i gyfranogwyr ar y nos Fawrth.

Financial Help : Autism Cymru has established a small bursary scheme to fund parents or people with ASD themselves, who genuinely cannot find the money to meet full costs, to attend training courses across Wales approved by Autism Cymru.

Cymorth ariannol: Mae Awtistiaeth Cymru wedi sefydlu cynllun bwrsari bach i roi cymorth ariannol i rieni neu i bobl gydag ASD eu hunain, sydd wir methu dod o hyd i'r arian i dalu'r costau llawn, i fynychu cyrsiau hyfforddi ar draws Cymru a ddarperir gan Awtistiaeth Cymru.

Dyfernir bwrsari ar gyfer hyfforddi ar sail unigol a rhoddir unrhyw ddyfarniad ar sail tystiolaeth angen a chaledi ariannol. Dylid anfon ceisiadau yn ysgrifenedig at Y Trysorydd Anrhydeddus, Swyddfa Cynhadledd Awtistiaeth Cymru, 64 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DF. Rhoddir dyfarniadau yn ôl blaenoriaeth ac maent yn ddibynnol ar gaffaeledd cyllid ar gyfer y cynllun bwrsari. Rhoddir dyfarniadau i dalu rhan neu'r cyfan o'r gost.

# Rhai o'r llawer o sylwadau ar Gynhadledd Ryngwladol Gyntaf Cymru ar Awtistiaeth Cynhadledd 2004:

*"Lleoliad prydferth"*



*"Cyferbyniad da o siaradwyr"*

*"Noson gyntaf ardderchog!"*

*"Attwood, Jordan, Blackburn - ardderchog, cyfareddol!"*

*"Wedi ymgolli yn yr holl brofiad"*



*"Cydlynu ardderchog - llongyfarchiadau"*



*"Yn llawer gwell na'm disgwyliadau"*

*"Siaradwyr anhygoel"*

*"Pobl o ystod proffesiynol eang yn ymdrechu tuag at ymarfer gorau mewn awtistiaeth - yn galonnogol iawn"*

*"Llongyfarchiadau ar eich Cynhadledd Ryngwladol Gyntaf ar Awtistiaeth ... Pryd mae'r nesaf? Da iawn Gymru!!*



*"Croeso Cynnes Cymreig!"*

S4C

**Awtistiaeth Cymru yw elusen S4C am y flwyddyn 2006.**

Mae rhaglen hyfforddi Awtistiaeth Cymru ar gael ar-lein ar www.awares.org

# Ffurflen

# Gofrestru Cyfranogwyr

**(rhowch dic yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda)**

Autism Cymru

**Wales' 2nd International Autism Conference**

Wales 2006

8th - 10th May 2006 - City Hall, Cardiff

Hoffwn archebu lle yng Nghynhadledd 2006 fel:

☐ Ymarferwr ☐ Rhiant Plentyn gydag ASD ☐ Person gydag ASD

☐ Byddaf / ☐ Ni fyddaf yn dod i'r agoriad swyddogol.

☐ Byddaf / ☐ Ni fyddaf yn dod i'r Noson Gymdeithasol nos Fawrth

sy'n costio £ ______ ac amgaeaf y tâl llawn.

A wnewch chi deipio neu ddefnyddio llythrennau bras. Rhaid cynnwys côd rhyngwladol i rifau tramor.

Enw cyntaf / Cyfenw / Teitl (Dr, Mr, Ms etc) ______

Os yn dod fel gweithiwr proffesiynol - Safle / Cwmni ______

Cyfeiriad ______

______

Côd Post / Côd Zip ______

Rhif ffôn yn cynnwys STD ______

Ebost ______

Os ydych yn archebu fel gr_p, nodwch faint o bobl sydd yn y gr_p ac ysgrifennwch eu henwau isod

Nifer ______ Enw ______ Safle ______

Enw ______ Safle ______

Enw ______ Safle ______

Arwyddwyd ______ Dyddiad (d.m.bl.) / /

## Talu

Gyda siec neu ddrafft banc yn daladwy i 'Autism Cymru'. Ni roddir cadarnhad fod lle nes derbyn taliad llawn. Ofnwn na allwn dderbyn sieciau Ewro. Rhaid canslo drwy ysgrifennu at Swyddfa Cynhadledd Awtistiaeth Cymru o leiaf 4 wythnos cyn y gynhadledd ac fe ddychwelir y ffî cofrestru atoch heb y tâl canslo o £30. Mae bwrsari ar gael i rieni a phobl gydag ASD.

### Ffî Cofrestru

(dimTAW)

| | |
|---|---|
| Ymarferwr | £299 |
| Rhiant | £145 |
| Person gydag ASD | £130 |

Prisoedd yn sterling

### Os gwelwch yn dda cwblhewch y ffurflen hon a'i hanfon at:

Swyddfa Cynhadledd Awtistiaeth Cymru, 64 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DF, Cymru

### Am fwy o wybodaeth

**Ffôn** + 44 (0)29 2046 3263
**Ffacs** + 44 (0)29 2046 3263
**Ebost** jennie@autismcymru.org
**Gwefan** www.autismcymru.org